**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN
Seneddpetitions@senedd.cymru

10 Mawrth 2021

Annwyl Gadeirydd

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 16 Rhagfyr ynglŷn â deiseb yn gofyn am unrhyw cyfyngiadau rheoleiddiol mewn perthynas â coronafeirws i fod yn destun pleidlais yn y Senedd.

Mae'r Rheoliadau Cyfyngiadau Coronafeirws yn cael eu gwneud o dan Ran 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Mae Adran 45R o'r Ddeddf yn caniatáu i Weinidogion wneud rheoliadau cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Senedd, os ydynt o'r farn bod angen gwneud y rheoliadau ar frys heb i fersiwn ddrafft gael ei gosod gerbron y Senedd, a'i chymeradwyo.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod y Senedd yn cael yr amser priodol ar gyfer ystyried pob cyfyngiad a chraffu arno. Rydym yng nghanol argyfwng iechyd cyhoeddus digynsail, a bu'n rhaid gwneud cyfyngiadau o dan y gweithdrefnau argyfwng gan fod angen eu gweithredu ar frys. Fodd bynnag, mae'r holl gyfyngiadau wedi cael eu trafod a'u cymeradwyo yn y Senedd. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno nifer o gynigion i roi'r cyfle i Aelodau'r Senedd drafod newidiadau i gyfyngiadau.

O dan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) Rhif 5 (Cymru) 2020, mae'n ofynnol cynnal adolygiad o'r cyfyngiadau bod 21 o ddiwrnodau er mwyn sicrhau eu bod yn gymesur, yn effeithiol, ac yn angenrheidiol.

Dymuniadau gorau

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**MARK DRAKEFORD**